
Adolygiad o'r rheolau yng Nghod Darlledu Ofcom ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 5 Tachwedd 2018

1. Crynodeb

Beth yw'r sefyllfa bresennol?

- 1.1 O dan adran 319 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"), mae gan Ofcom ddyletswydd i osod safonau ar gyfer cynnwys a ddarlledir a fydd, yn ein tyb ni, yn fodd i sicrhau amcanion y safonau. Un o amcanion y safonau yw sicrhau bod "unigolion o dan ddeunaw oed yn cael eu hamddiffyn".¹ Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn Adran Un y Cod Darlledu ("y Cod"). Rydym ni o'r farn bod y safonau rydym wedi'u gosod er mwyn amddiffyn plant ymysg y rhai pwysicaf yn y Cod, a byddan nhw'n dal yn flaenoriaeth i ni.
- 1.2 Mae rheol 1.4 y Cod yn datgan bod yn rhaid i ddarlledwyr teledu gadw at y trothwy 9pm. Mae hyn yn golygu na ddylid dangos deunydd teledu sy'n anaddas i blant cyn 21:00 nac ar ôl 05:30, yn gyffredinol.
- 1.3 Ers i'r Cod gael ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2005, mae wedi gadael i fathau penodol o gynnwys teledu sy'n anaddas i blant gael ei ddarlledu cyn y trothwy 9pm, os oes PIN gorfodol ar waith, hy PIN na ellir ei dynnu. Yn benodol, mae sianeli ffilmiau sy'n cynnig gwasanaeth premiwm i danysgrifwyr yn cael darlledu ffilmiau sydd wedi cael dosbarthiad o hyd at 15 gan y BBFC, neu rai sy'n cyfateb iddyn nhw, ar unrhyw adeg o'r dydd ar yr amod bod system warchod sy'n defnyddio PIN gorfodol ar waith rhwng 05:30 ac 20:00. Hefyd, caiff gwasanaethau talu wrth wyllo ddarlledu ffilmiau hyd at ddsbarthiad 18 y BBFC, ar yr amod bod PIN gorfodol ar waith i gyfyngu ar y gwyllo rhwng 05:30 a 21:00.²
- 1.4 Mae gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn fesur diogelu effeithiol sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae'n ategu'r trothwy 9pm er mwyn gwarchod plant rhag cynnwys darlledu a allai fod yn anaddas iddynt.

Beth oedd ein cynnig a pham?

- 1.5 Ym Mis Mawrth 2018, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad i gasglu barn rhanddeiliaid ar ein cynnig i ymestyn y rheolau ar gyfer gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn y Cod y tu hwnt i sianeli ffilmiau talu wrth wyllo a'r rhai sy'n cynnig gwasanaeth premiwm i danysgrifwyr.³ Yn gryno, gwnaethom gynnig:
 - Gadael i sianeli â chynnwys wedi'i amserlennu ddangos rhaglenni a ffilmiau, sy'n anaddas ar gyfer eu darlledu cyn 21:00, yn ystod y dydd cyn belled â bod PIN gorfodol ar waith.

¹ Adran 319 (2) (a)

² Gellir gweld rheolau presennol y cod ar tudalenau 41-43 o'n [hymgyngoriad](#)

³ Mae'r ymgynghoriad, ynghyd ag ymatebion y rhanddeiliaid a gyhoeddwyd ar gael ar [wefan Ofcom](#).

- 1.6 Roedd ein newid arfaethedig i'r rheolau yn cynnwys gofyniad i'r darlledwyr esbonio'n glir i ddefnyddwyr y system PIN gorfodol newydd sydd ar waith, ac i ddarparu canllawiau clir gyda rhaglenni i helpu oedolion benderfynu a yw cynnwys yn addas i blant.
- 1.7 Wrth lunio ein cynigion, gwnaethom ystyried ein dyletswyddau rheoleiddio⁴, sy'n cynnwys bod yn ymwybodol bod plant yn fregus, a gosod safonau sy'n gwarchod aelodau o'r cyhoedd rhag deunydd ar wasanaethau teledu a radio a all fod yn dramgwyddus a niweidiol. Hefyd, rhaid i Ofcom ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo cystadleuaeth, ac annog arloesedd a buddsoddiad, mewn marchnadoedd perthnasol. Hefyd, rydym angen sicrhau bod rheolau'r Cod yn dal yn berthnasol ac yn gymesur a'u bod yn adlewyrchu disgwyliadau cynulleidfaoedd ac ymddygiad gwyllo wrth i hynny newid.
- 1.8 Gwnaethom ystyried y datblygiadau sylweddol ym maes clywedol yn ehangach ers i Reolau'r Cod gael eu cyflwyno yn 2005, yn enwedig twf gwyllo ar-alwad, a'r twf mewn dyfeisiau wedi'u cysylltu â'r we. Hefyd, gwnaethom ystyried ein gwaith ymchwil â chynulleidfaoedd (ansoddol a meintiol) a gomisiynwyd yn 2017.⁵
- 1.9 Mae canlyniadau ein gwaith ymchwil yn dangos bod gwyllo ar-alwad yn gyffredin (mae dwy ran o dair o rieni ac wyth o bob deg plentyn rhwng 11 a 15 yn dweud eu bod gwyllo gwasanaethau ar-alwad gartref) ac mae ymwybyddiaeth a barn dda ynghylch codau PIN (gorfodol a gwirfoddol). Mae ein canfyddiadau'n dangos, er bod ymatebwyr yn credu mai'r trothwy 9pm oedd y nodwedd bwysicaf i ddiogelu plant, mae codau PIN hefyd yn cael eu hystyried yn fesur pwysig a gweddol effeithiol: roedd 85% o rieni yn credu bod codau PIN yn ffordd effeithiol o ddiogelu arferion gwyllo eu plant.
- 1.10 Roedd yr ymgynghoriad yn cydnabod y byddai estyniad o warchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn ddibynnol ar allu'r darlledwyr a'r llwyfannau. Mae Ofcom yn deall mai dim ond sianeli sydd ar gael ar llwyfannau teledu drwy dalu fyddai'n gallu cyflwyno system PIN gorfodol ar hyn o bryd, ac nad yw hyn yn ymarferol ar hyn o bryd am resymau technegol ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu darlledu am ddim (FTA) drwy Deledu Daeareol Digidol, fel Freeview.
- 1.11 Gwnaethom gynnal asesiad o effaith cystadleuaeth, a oedd yn ystyried yr effeithiau cystadleuol posibl y gallai ymestyn gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd eu cael ar wylwyr, llwyfannau a sianeli darlledu. At ei gilydd, gwnaeth Ofcom ystyried y byddai'r effeithiau cystadleuol yn debygol o fod yn gadarnhaol ond yn fach, yn benodol oherwydd ein bod y deall na fyddai darlledwyr yn debygol o ddefnyddio'r estyniad yn rheolaidd.

Beth oedd ein penderfyniad?

- 1.12 Fe gawsom 10 ymateb gan randdeiliaid i'r ffurflen ymgynghori: A+E Networks, BT, COBA, MediaWatch, Sky, Viacom, Virgin Media, YouView, darlledwr bach dienw, ac un unigolyn. Ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, rydym wedi penderfynu mabwysiadu cynigion ein

⁴Mae dyletswyddau rheoleiddiol yn Adran 3 o'r Ddeddf. Mae dyletswyddau rheoleiddiol Ofcom mewn perthynas â'i God Safonau yn Adran 319 o'r Ddeddf.

⁵ Mae'r adroddiad ymchwil o ddefnyddwyr gan Kantar, a gomisiynwyd gan Ofcom, ar gael ar ein [gwefan](#).

hymgyngoriad i ymestyn rheolau gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd y tu hwnt i sianeli ffilmiau talu wrth wyllo a'r rhai sy'n cynnig gwasanaeth premiwm i danysgrifwyr. Mae'r newidiadau i'r rheolau gwarchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn y Cod yn Adran 5 a byddant yn dod i rym ar 1 Ionawr 2019.

- 1.13 Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gafwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu cadw'r eithriad presennol yn Rheol 1.24 sy'n gadael i ffilmiau sydd wedi cael dosbarthiad o hyd at 15 gan y BBFC, neu rai sy'n cyfateb iddyn nhw, gael eu dangos ar ôl 20:00 ar sianeli ffilmiau sy'n cynnig gwasanaeth premiwm i danysgrifwyr heb warchodaeth orfodol yn ystod y dydd. Rydym yn trafod y penderfyniad hwn yn adran 5.
- 1.14 Nid yw'r newidiadau rydym wedi penderfynu eu gwneud i'r warchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn cael unrhyw effaith ar reolau eraill y Cod, gan gynnwys y rheolau trothwy 9pm, oedd ddim yn rhan o'r adolygiad hwn. Bydd y trothwy 9pm yn parhau i fod yn nodwedd hollbwysig o wasanaethau darlledu er mwyn diogelu plant rhag cynnwys anaddas. Yn yr un modd, ni fydd newid i'r rheolau ar gyfer deunydd rhyw i oedolion a fydd yn parhau i fod wedi'i gyfyngu i gael ei ddarlledu ar ôl 22:00 yn unig ar sianeli talu wrth wyllo a sianeli tanysgrifio premiwm sydd angen PIN gorfodol.⁶
- 1.15 Rydym yn disgwyl i ddarlledwyr a darparwyr llwyfannau sy'n bwriadu gwneud defnydd o'r warchodaeth orfodol yn ystod y dydd roi gwybod i'r gwylwyr am y drefn newydd, a pha mor bwysig yw hi i rieni osod codau PIN. Mae Adran 2 yn cynnwys rhagor o fanylion am ein disgwyliadau.
- 1.16 Wrth wneud ein penderfyniadau, rydym wedi ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad ynghyd â'n dyletswyddau rheoleiddio⁷, y Cais am Fewnbwn a gafwyd yn 2016⁸, ac ymchwil defnyddwyr. Yn Adrannau 2, 3, a 4 rydym yn nodi ein hystyriaeth o'r canlynol; diogelwch plant; y materion technegol ac ymarferol i roi'r warchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar waith; a'r effeithiau posib ar gystadleuaeth (mewn perthynas â chynulleidfaoedd, darparwyr llwyfannau a darlledwyr.

Asesiad o'r Effaith ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 1.17 Nid yw'r ddogfen hon yn cynnwys asesiad ar wahân o'r effaith. Yn lle hynny, mae'r ddogfen drwyddi draw yn asesiad. Cyfeirir isod at rai pwyntiau penodol i'w nodi.
- 1.18 Mae statud yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i unrhyw effeithiau posib ar grwpiau cydraddoldeb penodol hy, pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig, fel rhyw, anabledd neu hil⁹. Mewn perthynas â chydraddoldeb (boed hynny yng Ngogledd Iwerddon neu yng ngweddill y DU), rydym yn credu y bydd estyniad i'r warchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn debygol o effeithio ar bob dinesydd a defnyddiwr yn yr un ffordd, ac na fyddai hynny'n arwain at oblygiadau penodol i'r grwpiau cydraddoldeb gwahanol.

⁶ O dan Reol 1.18 o'r Cod Darlledu

⁷ Edrychwch ar droednodyn 4.

⁸ Mae'r Cais am Fewnbwn ac ymatebion y rhanddeiliaid a gyhoeddwyd ar gael yma ar [wefan Ofcom](#).

⁹ Edrychwch ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- 1.19 Yn yr ymgynghoriad, gwnaethom sylwi y gallai ein cynigion gael goblygiadau pellach i blant (o dan y nodwedd warchoddedig "oedran") a phobl gyda nam ar eu golwg. Yn Adran 2, rydym yn esbonio pam nad ydym yn credu y bydd estyniad i'r warchodaeth orfodol yn ystod y dydd yn cynyddu'r perygl o blant yn gweld deunydd anaddas a all beri niwed.
- 1.20 Yn Adran 2, rydym hefyd yn edrych ar effaith bosib ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd ar bobl sydd â nam ar eu golwg. Rydym yn nodi bod Ofcom wedi cyflwyno gofynion ar ddarparwyr EPG i wneud pob ymdrech resymol i gyflwyno nodweddion hygrychedd penodol¹⁰ ac rydym yn disgwyl y bydd y nodweddion hyn yn lliniaru'r effaith negyddol bosib ar unigolion sydd â nam ar eu golwg.
- 1.21 Mae ein dyletswyddau cydraddoldeb yng Ngogledd Iwerddon o dan adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yn mynnu ein bod yn rhoi sylw dyladwy i ba mor ddymunol ydy hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl sy'n credu mewn crefyddau gwahanol, sydd â barn wleidyddol wahanol neu sy'n perthyn i grwpiau hiliol gwahanol. Rydym yn credu bod ein cynnig yn gyson â'r dyletswyddau hyn ac nad yw'n gwarantu asesiad mwy trylwyr o'r effaith ar gydraddoldeb.

Beth yw'r camau nesaf?

- 1.22 Bydd y newidiadau i'r rheolau perthnasol i ymestyn y warchodaeth orfodol yn ystod y dydd y tu hwnt i ffilmiau yn dod i rym ar 1 Ionawr 2019. Dylai darlledwyr a llwyfannau sy'n bwriadu defnyddio'r rheolau newydd hyn roi gwybod i wylwyr am y newidiadau arfaethedig ymlaen llaw ac annog cartrefi, sydd heb wneud hynny eto, i osod codau PIN diogel.

¹⁰ Am ddisgrifiad llawn o'r gofynion edrychwch ar [Ddatganiad Hygrychedd Cyfeiryddion Rhaglenni Electronig Ofcom](#)